# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 2 – Y Dreth a'R Prif Gysyniadau

#### *Adran 11 - Contract sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo i drydydd parti*

22. Pan fo contract yn darparu y caiff prynwr buddiant trethadwy (P2) gyfarwyddo'r gwerthwr (P1) i drosglwyddo'r buddiant hwnnw i drydydd person (P3) neu i P2, nid ystyrir bod P2 yn ymrwymo i drafodiad tir, oni bai bod P2 yn cyflawni'r contract yn sylweddol cyn y trosglwyddiad hwnnw. Mewn achos o'r fath, caiff P2 ei drin fel pe bai wedi ymrwymo i drafodiad tir, sy'n cael effaith o ddyddiad cyflawni'r contract yn sylweddol, a phan fo'r contract yn cael ei ddiddymu neu ei ddirymu (yn llwyr neu'n rhannol), neu os na roddir effaith iddo am unrhyw reswm arall, bydd ACC, ar ôl i hawliad ddod i law, yn ad-dalu'r dreth a ordalwyd.